# Adolygiad thematig o gynrychiolaeth a phortread ar y BBC

Cylch gorchwyl

**CYLCH GORCHWYL:**

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Chwefror 2018
Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 29 Mawrth 2018

# Gair am y ddogfen hon

Un o Ddibenion Cyhoeddus y BBC ydy bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU gyfan, ac wrth wneud hynny, yn cefnogi'r economi greadigol ledled y DU.[1] Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddyn nhw, ond mae ein hymchwil yn dangos nad ydy nifer o grwpiau'n teimlo ei fod yn cynrychioli eu diddordebau neu eu bywydau'n ddigonol. Rydyn ni'n cynnal yr adolygiad thematig hwn o gynrychiolaeth a phortread er mwyn deall yn well beth mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC, ac a ydy'r BBC yn adlewyrchu ac yn portreadu bywydau pawb ymhob rhan o'r DU. Drwy edrych yn fanwl ar gynrychiolaeth a phortread nawr, byddwn ni'n cael sylfaen er mwyn gweld a oes angen rhagor o fesurau i sicrhau bod y BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad. Rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau erbyn 29 Mawrth 2018. Bydd ein hadroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018.

[1] Diben Cyhoeddus 4, Siarter y BBC
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577829/57964_CM_9365_Charter_Accessible.pdf

# Cylch gorchwyl

## Rydyn ni'n cynnal adolygiad manwl ar sut mae gwledydd, rhanbarthau a chymunedau amrywiol y DU yn cael eu cynrychioli a'u portreadu yn rhaglenni teledu'r BBC

1.1 Mae Siarter y BBC[2] yn cynnwys Dibenion Cyhoeddus ar gyfer y BBC. Mae Diben Cyhoeddus 4 yn dweud bod yn rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU gyfan, a chefnogi'r economi greadigol ledled y DU wrth wneud hynny. Mae'r Siarter yn datgan y dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y DU yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl ledled y DU, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Dylai ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymdeithasol y DU.

1.2 Yn 2017, fe wnaethom ni osod Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC,[3] sy'n cynnwys yr Amodau Rheoleiddio yr oedd Ofcom yn credu ar y pryd oedd yn briodol er mwyn i'r BBC fodloni Diben Cyhoeddus 4. Nod yr Amodau hyn ydy sicrhau bod gwaith y BBC o bortreadu a chynrychioli cymunedau amrywiol y DU yn cael ei oruchwylio'n gadarn.

1.3 Yn y Drwydded Weithredu rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad manwl o sut caiff cynulleidfaoedd gwahanol eu cynrychioli a'u portreadu ar y BBC. Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddyn nhw, ond mae ein hymchwil[4] yn dangos nad ydy nifer o grwpiau'n teimlo ei fod yn cynrychioli eu diddordebau neu eu bywydau'n ddigonol.

1.4 Bydd cynnal yr adolygiad hwn yn caniatáu i ni ddeall yn well sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo y mae'r BBC yn adlewyrchu ac yn portreadu eu bywydau. Bydd yn rhoi sylfaen er mwyn gweld a oes angen rhagor o fesurau i sicrhau bod y BBC yn darparu ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd. Mae datblygu sylfaen yn arbennig o bwysig oherwydd y bydd bwlch cyn y daw'r gofynion adrodd, sydd wedi'u gosod gan ein Hamodau Rheoleiddio, i rym.

1.5 Bydd yr adolygiad yn edrych yn bennaf ar deledu. Mae gan y cyfryngau gweledol rôl allweddol o ran dangos i ni sut mae'r byd yn gweithio - a'n lle ni ynddo. Wrth edrych ar gynrychiolaeth, byddwn yn ystyried pwy a beth sy'n cael eu gweld ar y sgrin, ac wrth edrych ar bortread, byddwn yn ystyried pa mor ddilys ydy'r gynrychiolaeth. Byddwn hefyd

[2] Siarter y BBC https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577829/57964_CM_9365_Charter_Accessible.pdf

[3] Trwydded Weithredu'r BBC https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf

[4] Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2017 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/103919/annex-a-audience-opinions.pdf

yn defnyddio'r adolygiad hwn i ddeall yn well y berthynas rhwng beth rydyn ni'n ei weld ar y sgrin a sut mae rhaglenni'n cael eu gwneud.

## Mae'n bwysig bod y cyd-destun darlledu'n llwyr adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU

1.6 Mae trafodaethau am gynrychiolaeth a phortreadau yn aml yn ysgogi teimladau cryf a diddordeb eang, oherwydd eu bod yn gysylltiedig ag agweddau sylfaenol pwy ydyn ni a sut rydyn ni'n gweld ein hunain.

1.7 Dylai'r bobl rydyn ni'n eu gweld ar y teledu adlewyrchu'r rhai sy'n gwylio'r teledu, yn fras. Ond yn ôl ein hymchwil ni, nid fel yna mae hi bob tro. Mae tri o bob pedwar o wylwyr yn dweud ei bod yn bwysig bod ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos y gwahanol fathau o ddiwylliannau sydd yn y DU, dim ond dwy ran o dair sy'n gweld hyn yn digwydd[5].

## Dylai'r BBC fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran rhaglenni sy'n portreadu bywyd modern ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ddilys

1.8 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon â gwasanaethau teledu'r BBC. Ond, roedd ein hymchwil i natur unigryw yn 2017 wedi canfod bod rhai pobl yn teimlo bod safbwyntiau'r BBC yn aml yn canolbwyntio ar Lundain. Teimlwyd y gallai'r BBC wneud mwy i bellhau oddi wrth yr agwedd hon a bod yn fwy amrywiol yn ddaearyddol.

## Mae amrywiaeth o gynulleidfaoedd wedi mynegi pryder ynghylch sut maen nhw'n cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC

1.9 Canfu ein hymchwil hefyd, er bod pobl hŷn a phobl dosbarth canol yn fwy cadarnhaol am wasanaethau'r BBC yn gyffredinol, roedd rhai o'r bobl iau a phobl dosbarth gweithiol, yn ogystal â phobl o grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y gymuned LGBT a phobl ag anableddau, yn fwy tebygol o gael barn lai cadarnhaol ar y BBC. Teimlwyd y gallai'r BBC wneud rhagor i gynrychioli pob rhan o gymdeithas, drwy ddod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd hefyd a chael cynrychiolaeth uwch o genedlaethau ifanc.

## Rydyn ni'n comisiynu ymchwil newydd a fydd yn ein helpu ni i greu darlun o'r sefyllfa bresennol

1.10 O ystyried yr heriau sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth fanwl am gynrychiolaeth a phortread, byddwn yn cynnal ymchwil newydd er mwyn cael sylfaen ar gyfer yr adolygiad hwn.

1.11 Mae'n bwysig bod y BBC yn cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i weddill y DU. Byddwn yn siarad â chynulleidfaoedd ledled y DU, er mwyn deall eu

[5] Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2017
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/103919/annex-a-audience-opinions.pdf

hystyriaethau’n well ynghylch sut mae’r gwledydd yn cael eu cynrychioli a’u portreadu. Byddwn hefyd yn siarad â phobl sydd ag ystod o nodweddion er mwyn deall yn well y pryderon y mae gwahanol grwpiau lleiafrifol wedi’u hamlinellu uchod.

1.12 Bydd data meintiol newydd, a fydd yn cael ei gasglu drwy ein harolwg tracio perfformiad ehangach ar gyfer y BBC, yn rhoi gwybodaeth lefel uchel ynghylch sut mae grwpiau gwahanol o bobl yn teimlo maen nhw a’u cymunedau’n cael eu cynrychioli a’u portreadu gan gynnwys y BBC.

1.13 Rydyn ni’n bwriadu adeiladu ar ddata’r arolwg hwn drwy siarad â phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd a chymunedau, er mwyn deall yn well pam mae pobl yn teimlo fel maen nhw am gynrychiolaeth a phortreadau.

1.14 Hefyd, rydyn ni’n bwriadu dadansoddi cynnwys er mwyn deall, pan fo modd mesur hynny, pa mor aml mae grwpiau gwahanol yn ymddangos ar sgrin. Bydd y data hwn, ar y cyd â’r ymchwil a nodwyd uchod ynghylch sut mae pobl yn teimlo, yn ein helpu ni i greu darlun mwy cynhwysfawr o gynrychiolaeth a phortreadau ar raglenni teledu’r BBC.

1.15 Rydyn ni’n cydnabod bod pob penderfyniad sy’n cael ei wneud drwy’r gadwyn creu cynnwys yn dylanwadu ar yr hyn sy’n ymddangos ar ein sgrin yn y pen draw, o gael syniad i gomisiynu, i gynhyrchu ac amserlennu.

1.16 Er mwyn deall y cysylltiad hwn yn well, byddwn yn siarad â phobl sy’n ymwneud â chynhyrchu, y tu ôl i'r llenni ac ar y sgrin. Ein nod ydy casglu safbwyntiau ar amrywiaeth o faterion, fel diwylliant trefniadaethol, y broses gomisiynu a chydraddoldeb y rhywiau, hil a nodweddion eraill. Byddwn yn edrych yn fanwl ar sut gall y ffactorau hyn a rhai eraill effeithio ar ansawdd, ystod ac amrywiaeth yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei weld ar raglenni teledu’r BBC.

## Rydyn ni’n croesawu safbwyntiau ynghylch beth ddylai Ofcom ei ystyried fel rhan o’r adolygiad hwn

1.17 Rydyn ni’n croesawu cyflwyniadau ysgrifenedig ynghylch beth ddylai Ofcom ei ystyried fel rhan o’r adolygiad hwn o sut mae’r BBC yn cynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU.

1.18 Y dyddiad cau ar gyfer anfon ymateb ydy dydd Iau, 29 Mawrth 2018.

1.19 Bydd canfyddiadau’n cael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2018.